**CYNGOR BRO MORGANNWG**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 26 Medi, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Susan Lloyd-Selby (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Emma Goodjohn, William Hennessy, Sally Hanks, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Michael Morgan, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ruba Sivagnanam, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Edward Williams, Mark Wilson and Nicholas Wood.

EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Russell Godfrey, Ewan Goodjohn*, Stephen Haines, Howard Hamilton*, Naomi Marshallsea, Jayne Norman*, Ian Perry*, Joanna Protheroe*, Carys Stallard* a Margaret Wilkinson.

(D.S. Roedd y Cynghorwyr a nodwyd gyda seren yn mynychu o bell ac yn cael anawsterau technegol ac felly nid oeddent yn gallu cymryd rhan gan nad oedd modd eu gweld na'u clywed.)

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir, yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd Gilligan yng nghofnod Ymddiheuriadau am Absenoldeb.

EITEM AGENDA 6. DEFNYDD O BWERAU BRYS Y PRIF WEITHREDWR (PW) -

PENDERFYNWYD – Nodi’r defnydd o Bwerau Brys y Prif Weithredwr, ar yr amod y nodir ymhellach bod y defnydd o Bwerau Brys fel y nodir ym mharagraff 2.1(a) yr

adroddiad wedi'i adrodd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor ym mis Gorffennaf a'i gynnwys yn yr adroddiad mewn camgymeriad.

EITEM AGENDA 7. DIWYGIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR (AG/BA) –

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO y newid i'r dirprwyaethau perthnasol o swyddogion fel y nodir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad a diwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

(2) Nodi'r diwygiad i Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor fel y nodir ym mharagraff 2.3 yr adroddiad a diwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

(3) Nodi'r diwygiad i wahanol deitlau portffolio'r Cabinet fel y nodir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad a diwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Diweddaru'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion a darpariaethau perthnasol o fewn y Cyfansoddiad presennol.

(2) Diwygio Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor o fewn y Cyfansoddiad presennol.

(3) Diweddaru teitlau portffolio'r Cabinet o fewn y Cyfansoddiad presennol.

EITEM AGENDA 8(a) ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 a ystyriwyd gan y Cabinet ar 21 Gorffennaf 2022 (Mae Cofnod Rhif C48 yn cyfeirio at hyn).

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.